Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 10.06.24 |
| **Pwnc / Subject:** | **Ymgynghoriad ar y Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 yn yr amgylchedd adeiledig, peirianneg, iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**
At ei gilydd, rydym yn cefnogi'r cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn. Rydym wedi nodi ychydig o agweddau i Cymwysterau Cymru eu hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ystyried ffyrdd y gall y cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant alluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau ymarferol yn effeithiol.
- Ystyried cynnig cymhwyster Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU) a chymhwyster TGAU mewn peirianneg.
- Ystyried a yw'r cymwysterau sgiliau bywyd yn parhau i fod yn addas at eu diben, ac ystyried a yw'r elfennau yn fuddiol ar gyfer yr holl ddisgyblion.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

Mae'r arolwg hwn yn cynnwys cyfres o gwestiynau am y Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 yn yr amgylchedd adeiledig, peirianneg ac iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

Gallwch ateb cwestiynau ar bob pwnc, neu'r rhai sy'n berthnasol i chi yn unig.

**Yr Amgylchedd Adeiledig**

1. **Yn eich barn chi, a ddylid datblygu'r cymhwyster amgylchedd adeiledig newydd lefel 1 / lefel 2 fel cymhwyster TAAU neu gymhwyster TGAU?**

TAAU

TGAU

Y naill neu'r llall (dim ffafriaeth)

Ddim yn siŵr

Esboniwch eich ateb?

O ystyried bod nifer fach o ddisgyblion yn dilyn y cymhwyster TGAU Amgylchedd Adeiledig ar hyn o bryd, teimlwn y byddai'n fwy buddiol cynnig hyn i ystod ehangach o ddisgyblion trwy ei wneud yn gymhwyster galwedigaethol. Dylai'r cynnig hwn fod mor ymarferol ag y bo modd, a byddai dull galwedigaethol yn darparu'r cyfleoedd gorau i ddisgyblion ymarfer, datblygu a dangos eu medrau.

Os penderfynir symud hwn i fod yn gymhwyster TAAU, bydd yn bwysig ystyried yr effaith y gallai ei chael ar nifer fach y disgyblion a allai fod wedi bod eisiau dewis y cymhwyster TGAU.

2. **A oes unrhyw effeithiau ychwanegol (naill ai cadarnhaol neu negyddol) y mae angen i ni eu hystyried wrth benderfynu a ddylai'r cymhwyster amgylchedd adeiledig 14-16 fod yn gymhwyster TAAU neu'n gymhwyster TGAU?**

Gan ei fod yn gymhwyster galwedigaethol, bydd yn hanfodol fod athrawon sy'n cyflwyno'r cyrsiau yn meddu ar y wybodaeth a'r profiad technegol angenrheidiol. Bydd angen i argaeledd adnoddau fod wedi'i gysylltu'n agos â gweithgareddau dysgu ac asesu.

Os caiff ei gynnig fel cymhwyster TAAU, bydd angen datblygu cynnwys y cwrs yn ofalus i weithredu fel rhagflaenydd i lwybrau dilyniant yn y maes dysgu.

**Peirianneg**

3. **Yn eich barn chi, a ddylid datblygu'r cymhwyster Peirianneg newydd lefel 1 / lefel 2 fel cymhwyster TAAU neu gymhwyster TGAU?**

TAAU

TGAU

Y naill neu'r llall (dim ffafriaeth)

**Ddim yn siŵr**

Esboniwch eich ateb?

Rydym o'r farn y byddai'n fuddiol trefnu bod y cymhwyster hwn ar gael fel cymhwyster TGAU a chymhwyster TAAU. Mae'r cymhwyster TGAU mewn Peirianneg wedi cael ei groesawu gan lawer o ysgolion a disgyblion, ond teimlwn y gallai peidio â chael cymhwyster TAAU greu anfantais i leiafrif o ddysgwyr a fyddai wedi astudio'r cymhwyster peirianneg cenedlaethol yn y gorffennol.

Hefyd, mae angen i ni fod yn ofalus â'r awgrym i newid y cymhwyster TAAU i weithgynhyrchu, er mwyn gwahaniaethu'n glir rhwng y ddau gymhwyster. Gallai galw un cymhwyster yn 'peirianneg' ac un arall yn 'gweithgynhyrchu' arwain at ddryswch os yw disgyblion yn mynd ymlaen i Addysg Bellach neu brentisiaethau, gan mai'r term trosfwaol a ddefnyddir yw peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu.

4. **A oes unrhyw effeithiau ychwanegol (naill ai cadarnhaol neu negyddol) y mae angen i ni eu hystyried wrth benderfynu a ddylai'r cymhwyster peirianneg 14-16 fod yn gymhwyster TAAU neu'n gymhwyster TGAU?**

Bydd yn bwysig ei gwneud yn glir fod y cymwysterau hyn yn debyg a bod ganddynt yr un statws. Bydd yn bwysig ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant yn y dyfodol i bobl ifanc. Os cynigir cymhwyster TAAU a chymhwyster TGAU, byddai'n fuddiol i'r naill a'r llall ohonynt gael peirianneg yn eu teitl.

- **Os yw Peirianneg yn parhau fel cymhwyster TGAU, dylai fod cymhwyster TAAU newydd mewn gweithgynhyrchu o fewn y gyfres TAAU?**

  **Na**

  Esboniwch eich ateb?

  Credwn y gallai rhannu peirianneg a gweithgynhyrchu arwain at ddryswch ymhlith dysgwyr. Ar hyn o bryd, mewn cymwysterau ôl-16, technolegau peirianneg a gweithgynhyrchu yw'r teitl a ddefnyddir, ac mae peirianneg wedi'i rannu'n ddisgyblaethau, cynhyrchu, mecanyddol, trydanol, ac ati. O ganlyniad, gallai hyn arwain at ddryswch yn y sector ôl-16.

5. **A oes unrhyw effeithiau ychwanegol (naill ai cadarnhaol neu negyddol) y mae angen i ni eu hystyried wrth benderfynu a ddylai fod cymhwyster TAAU mewn gweithgynhyrchu?**

**Nac oes**

**Iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant**

6. **Yn eich barn chi, a ddylid datblygu'r cymhwyster newydd lefel 1 / lefel 2 mewn iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, fel cymhwyster TAAU neu gymhwyster TGAU?**

TAAU

TGAU

Ddim yn siŵr

Esboniwch eich ateb?

Rydym yn cytuno bod hwn yn gymhwyster hirsefydledig a phoblogaidd gyda chanolfannau, a bod gan ddisgyblion lwybrau dilyniant clir. Byddai cymhwyster TAAU yn fuddiol i ddisgyblion ddatblygu a dangos medrau ymarferol lle mae angen. Byddai cymhwyso'r cymhwyster hwn yn ymarferol yn fuddiol o ran cefnogi pobl ifanc i gymryd y camau nesaf yn eu dysgu. Byddem yn annog Cymwysterau Cymru i archwilio sut gallai'r cymhwyster TAAU ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau mewn cyd-destunau ymarferol.

7. **A oes unrhyw effeithiau ychwanegol (naill ai cadarnhaol neu negyddol) y mae angen i ni eu hystyried pe bai'r cymhwyster 14-16 mewn iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, yn aros fel cymhwyster TGAU?**

Cwestiynau am yr asesiad effaith integredig

1. A oes unrhyw effeithiau rheoleiddio ychwanegol nad ydynt wedi cael eu nodi uchod yn deillio o'r cynigion hyn?

   **Oes**

2. Os oes, beth yw'r effeithiau?

   Soniodd yr ymgynghoriad am y cymwysterau sgiliau bywyd. Rydym eisoes wedi codi pryderon am y cymwysterau hyn o'r blaen ac yn parhau i fod yn bryderus am eu defnyddioldeb i bobl ifanc.

   Ni fydd yr uned 'Gofalu am Bobl Eraill' yn disodli elfen ymarferol iechyd a gofal cymdeithasol neu ofal plant yn ddigonol. Ni fyddem yn annog Cymwysterau Cymru i hyrwyddo'r uned 'Gofalu am Bobl Eraill' fel dull i ddarparu'r medrau hyn.

   Yn ychwanegol, bydd angen i gynnwys y cwrs baratoi disgyblion ar gyfer symud ymlaen i'r sector ôl-16. Mae problemau sylweddol yn bodoli ar draws y sector ôl-16, a cheir tystiolaeth o ddeilliannau isel a chyfraddau tynnu'n ôl uchel.

3. A oes unrhyw gamau ychwanegol y gellid eu cymryd i leihau i'r eithaf effeithiau rheoleiddiol y cynigion? Os felly, rhowch sylwadau ar y camau ychwanegol y gallem eu cymryd?

Er mwyn lleihau'r effeithiau hyn i'r eithaf, efallai byddai'n fuddiol ailystyried agweddau ar y cymwysterau 'sgiliau bywyd' i sicrhau y byddant o fudd i bob disgybl.

4. A oes unrhyw gostau, arbedion neu fuddion eraill yn gysylltiedig â'r cynigion nad ydynt wedi cael eu nodi? Rhowch amcangyfrifon am ffigurau, lle bo modd?

Mae llawer o ysgolion eisoes yn cynnig llawer o'r cymwysterau hyn, ac felly wedi eu paratoi'n dda ar eu cyfer. Gallai'r newid yn yr amgylchedd adeiledig gynyddu baich gwaith i ddechrau wrth i ysgolion addasu eu dulliau.

5. A oes unrhyw wybodaeth ychwanegol y dylid ei hystyried wrth werthuso costau a buddion y cynigion?

**Nac oes**

6. Yn ein hasesiad effaith blaenorol ar Y Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16, nodom ffyrdd y gallai'r cynigion effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig. A oes unrhyw effeithiau posibl eraill nad ydym wedi eu nodi?

   **Nac oes**

7. Os oes, beth yw'r effeithiau?

8. A oes unrhyw gamau ychwanegol y gallem eu cymryd i liniaru unrhyw effaith negyddol ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig yn deillio o'r cynigion hyn? Os felly, rhowch sylwadau ar y camau ychwanegol y gallem eu cymryd.

9. A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar effeithiau'r cynigion ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig?

   **Nac oes**

10. Yn ein hasesiad effaith blaenorol ar Y Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16, nodom ffyrdd yr oedd ein cynigion yn effeithio ar y Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. A oes unrhyw effeithiau posibl eraill ar y Gymraeg nad ydym wedi'u nodi? Os oes, beth yw'r effeithiau?

    **Nac oes**

11. Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol ein cynigion ar y Gymraeg, neu liniaru effeithiau negyddol?

Bydd yn bwysig sicrhau bod yr holl adnoddau a manylebau ar gael yn ddwyieithog ar yr un pryd, a bod dysgu a chymorth proffesiynol ar gael.